

# Cefais fy ngeni iddi

*“Ond dywedodd Paul, ‘Cefais i fy ngeni iddi.’” (adn. 28)*

## Beth am ddarllen Actau 22:22–29 ac yna myfyrio

Cawn yr apostol Paul yn cyfeirio at y ffaith ei fod yn ddinesydd Rhufeinig ar fwy nag un achlysur yn llyfr yr Actau. Mae'r achlysur sydd o'n blaen heddiw yn un esiampl. Cafodd yr apostol ei ddwyn i'r ddalfa yn Jerwsalem (gweler Actau 21:27–36) ac yntau, yn anfwriadol, wedi tarfu ar heddwch y ddinas. Ond fe brofodd ei fod yn un o'r carcharorion mwyaf rhyfedd yr oedd y pen-captan erioed wedi ei arestio.

Yn gyntaf, synnodd Paul ef drwy siarad yn yr iaith Roeg. Roedd y pen-captan yn tybied mai Eifftiwr oedd Paul ac felly mae'n dweud, “O! rwyf yn deall Groeg?” (Actau 21:37). Wedi cael caniatâd i siarad â'r dyrfa, mae Paul yn synnu y pen-captan ymhellach trwy dawelu'r dyrfa mewn Aramaeg perffaith. Ac yna, pan gynhyrfwyd y bobl ac anfonwyd y milwyr i labyddio Paul, fe synnodd ef drachefn. Dywedodd wrth y canwriad oedd yn sefyll yn ei ymyl: “A yw'n gyfreithlon i ti labyddio dinesydd Rhufeinig?” Danfonodd y canwriad am y pen-captan, ac fe ddaeth hwnnw ar unwaith a gofyn i Paul: “A wyt ti yn ddinesydd Rhufeinig?” “Ydwyf,” meddai Paul. Ymatebodd y pen-captan drwy ddweud: “Bu raid i mi dalu pris uchel am fy ninasyddiaeth i.” “Ond cefais i fy ngeni iddi,” meddai Paul.

Mi fedrech ddod yn ddinesydd Rhufeinig mewn amryw o ffyrdd: drwy gael eich geni i rieni Rhufeinig neu drwy ymddeol o'r fyddin; drwy gael eich rhyddhau o gaethwasanaeth gan feistr Rhufeinig; yn rhodd gan ben-captan Rhufeinig, neu ei phrynu. Beth bynnag am hynny, does ond un ffordd i feddiannu dinasyddiaeth y nefoedd. Rhaid i chi fod yn ddinesydd y nefoedd trwy enedigaeth. Nid genedigaeth naturiol, ond genedigaeth o'r nefoedd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 3:1–11; 1:13; Titus 3:5

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd achos brwydr Nicodemus?
2. Beth danlinellodd Iesu fel yr hyn sydd yn hanfodol i enedigaeth newydd?

## Gweddi

Fy Nuw a fy Nhad, rwyf mor ddiolchgar nad wyf yn gorfod ennill fy ninasyddiaeth yn y nefoedd. Petai hynny yn wir, ni fuaswn byth yn ddinesydd. Rwyf wedi derbyn fy ninasyddiaeth trwy gael fy ngeni oddi uchod. Boed clod a mawl i ti am byth. Amen.